www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Archebu ar-lein yn gwneud elw i glybiau golff

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Archebu ar-lein yn gwneud elw i glybiau golff

Nick Kitchen (chwith) a Roger Lewis yng Nghlwb Golff Gogledd Cymru, Llandudno.

Mae gwasanaeth archebu ar-lein newydd yn creu llewyrch ariannol i glybiau golff Gogledd Cymru.

Mae'r incwm o ffioedd grîn wedi cynyddu 20 y cant ar gyfartaledd - gyda rhai clybiau yn dweud iddynt weld cynnydd o 40 y cant.

Mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yn cefnogi'r cynllun, sef y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol yr economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru.

Mae cynnal cystadleuaeth Cwpan Ryder yn y Celtic Manor, Casnewydd, y flwyddyn nesaf wedi rhoi hwb aruthrol i ddatblygu golff fel elfen allweddol o'r diwydiant twristiaeth.

Ar ôl y Gemau Olympaidd a Chwpan Pêl-droed y Byd, dyma'r trydydd digwyddiad mwyaf yn y calendr chwaraeon.

Yn ôl Roger Lewis, Cydgysylltydd Golff y Bartneriaeth Twristiaeth yng Ngogledd Cymru, mae'r rhanbarth eisoes yn manteisio ar Gwpan Ryder diolch i fuddsoddiad uwch gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel rhan o'r ymgyrch Golff Cymru, bu Mr Lewis yn hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan o fri yn ddiweddar mewn digwyddiadau yn Sweden a'r maes golff byd-enwog, Gleneagles, yn yr Alban.

Meddai: "Rhyw flwyddyn neu ddwy yn ôl fe ddaeth yn amlwg i ni nad oeddem yn gallu derbyn archebion ar benwythnosau na gyda'r nos, yn enwedig gan bobl o wledydd tramor a'r tu allan i'r ardal, a'r cyfan roeddent am ei wneud oedd mynd ar-lein neu godi'r ffôn.

"Nid oes ysgrifenyddion llawn-amser mewn llawer o glybiau felly roedd yn anodd iawn archebu amser i chwarae rownd o golff.

"Rydym wedi datblygu gwefan sy'n cynnwys system archebu ar-lein y gall pobl ei defnyddio bob awr o'r dydd a'r nos ac mae Gogledd Cymru yn arwain y maes wrth i gymaint o glybiau weithio gyda'i gilydd fel un clwstwr a thrwy un wefan.

Erbyn hyn mae 21 o'r 25 clwb yn ein rhaglen gyfredol yng Ngogledd Cymru wedi ymaelodi â'r cynllun.

"Ymrwymiad y clybiau i dwristiaeth golff a'n partneriaeth gydag awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am lwyddiant y cynllun yma.

"Ar y wefan www.golf-northwales.co.uk , a grëwyd ac sy'n cael ei rhedeg gan gwmni o Belfast, BRS, gall cwsmeriaid archebu ar-lein yn ogystal â gweld lluniau o'r gwahanol gyrsiau golff a manylion am gynigion arbennig a llety cyfagos.

"Rydym yn dod yn gyrchfan gynyddol boblogaidd i chwaraewyr golff o Ogledd Orllewin Lloegr sy'n gallu manteisio ar y cynigion a'r bargeinion newydd ar y wefan.

"Yn ogystal â'n clybiau mwy adnabyddus, mae

tudalen flaenorol ◀ ▶ tudalen nesaf

Clwb Golff Nefyn a'r Cylch.

gennym lu o glybiau a fu'n guddiedig hyd yn hyn, ym mhob cwr o Ogledd Cymru.

"Mae yma gyrsiau golff ardderchog ac mae'r meysydd golff dros y twyni yn ddiguro.

"Trwy fod ar-lein gallwn gyrraedd pobl mewn mannau na fyddem erioed wedi dychmygu o'r blaen ac mae Ewrop, a Sweden yn arbennig, yn enghraifft dda o hyn.

"Mae un clwb golff, Aberdyfi, wedi gweld cynnydd o 40 y cant mewn traffig o Ogledd Ewrop, a hynny eleni'n unig.

"Rydym hefyd yn denu llawer iawn o chwaraewyr golff o Sweden yn ogystal â nifer cynyddol o'r Almaen.

"Er bod pethau'n anodd arnom yn economaidd, rydym yn gweld bod lefelau ffioedd grîn gryn dipyn yn uwch ledled Gogledd Cymru, o ryw 20 y cant ar gyfartaledd.

"Mae golff yn rhoi hwb aruthrol i'r economi oherwydd bod y golffwyr yn gwneud mwy na dod yma a thalu ffi'r grîn.

"Rydym yn ceisio trosi eu hymweliad i chwarae golff yn wyliau penwythnos neu'n becyn golff sy'n para ychydig ddyddiau.

"Rwy'n credu bod golffiwr nodweddiadol yn gwario rhyw £150 y noson ac o ystyried popeth mae golff yn cyfrannu miliynau o bunnoedd i economi'r rhanbarth.

"Heb Gwpan Ryder ni fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chwpan Ryder Cymru wedi rhoi'r arian i ni hybu ein hunain yn yr un ffordd.

Mae Nick Kitchen, Rheolwr Clwb Golff Gogledd Cymru yn Llandudno, yn ffan mawr o'r system archebu ar-lein.

Meddai: "Mae'r ffordd y mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd yn awr wedi creu argraff fawr arna'i ac mae'r gwasanaeth archebu wedi cael effaith anhygoel - rydym 20 y cant i fyny ar y llynedd."

"Fel cyfanswm o refeniw ffioedd grîn mae'r archebion ar-lein yn gyfwerth â rhyw 25% o'n hincwm ar hyn o bryd ac mae'r ganran honno'n tyfu drwy'r amser."

Ewch i www.golf-northwales.co.uk neu ffoniwch 0845 450 5885 i wybod mwy.

www.tpnw.org